

## Enw newydd

*“...ac yn ysgrifenedig ar y garreg enw newydd na fydd neb yn ei wybod ond y sawl sydd yn ei derbyn.” (adn. 17)*

### Beth am ddarlenn Datguddiad 2:12–17 ac yna myfyrio

Yr ydym wedi nodi dros y diwrnodau diwethaf fod yna bedair nodwedd arbennig yn perthyn i'r nefoedd. Yn gyntaf, mae'n lle o fawl parhaus. Mae'n lle o wasanaeth parhaus. Mae'n lle o orfoledd parhaus ac mae'n lle o berffeithrwydd parhaus. Wrth gwrs, nid y rhain yw unig nodweddion y nefoedd, ond maent yn ddigon i ni gael blas o ogoniant ein dinas dragwyddol, yn ddigon i beri ein bod yn edrych ymlaen i gyfarfod â'n Harglwydd ac i eistedd ag ef yn swper yr Oen.

Y peth olaf yr wyf am ei adael gyda chwi yw'r hyn a gyfyd o'n testun heddiw. Yn y nefoedd, fe fydd gan bob un ohonom enw newydd. Fel y gwyddoch, mae enw yn y Beibl, nid yn unig yn arwydd o bwy ydym ond yn ddisgrifiad o bwy ydym. Roedd ystyr i enw Jacob – twyllwr, ystyr i enw Iesu – Gwaredwr. Mae yna gannoedd o esiamplau yn yr Ysgrhythur o enwau yn disgrifio cymeriad person, neu ddiffyg cymeriad. Beth sydd yn fwy personol i ni na'n henw? Does dim gwaeth na rhywun yn cyfeirio atom fel rhif. Nid rhif ydw i, ond person gydag enw. Mae'n debyg, er hynny, y byddwn yn y nefoedd yn cael enw newydd, ac fe fydd yr enw yma yn gyfrinach rhyngom ni a Duw. “Ysgrifennaf ar y garreg enw newydd ac ni fydd neb yn ei wybod ond y sawl sydd yn ei derbyn.”

Beth yw arwyddocâd y gyfrinachedd yma? Wel, fe fydd pob un ohonom mewn perthynas bersonol iawn â Duw. Ni fydd angen i neb deimlo fod bod yn rhan o gymuned y ddinas dragwyddol golygu y bydd inni goll i ein perthynas bersonol â'r Drindod. Ni fydd neb yn mynd ar goll yn y gynulleidfa. Fe fydd dy berthynas â Duw yr un mor bersonol, os nad yn fwy personol nag yr hyn yw yn awr. Fe fyddi di'n rhan o lu y nefoedd, ond, ar yr un pryd, fe fydd dy berthynas â'th Dad yn gwbl bersonol.

### Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Math. 10:29–31; Heb. 12:23; Salm 139:13–18

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut bu i Iesu ddisgrifio adnabyddiaeth bersonol Duw ohono?
2. Sut bu i'r salmydd ddisgrifio hyn?

### Gweddi

O Dad, rwy'n diolch i ti na fydd yn y nefoedd yr un ohonom ar goll mewn môr o wynebaw. Diolch y bydd fy mherthynas â thi yn berthynas bersonol. Fe fyddwn yn cyfathrebu fel petai yno ond y ddau ohonom. Ni allaf braidd ddechmygu gogoniant fy ninas dragwyddol. Diolch i ti, Arglwydd. Yn enw Iesu. Amen.